**Enw'r Ysgol: Ysgol Llandygai Rhif: 3013**

## Addysg Grefyddol

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Datblygir sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth am Gristnogaeth a chrefyddau amrywiol.
- Mae'r gwerthoedd Cristnogol yn cael eu cyflwyno mewn gwersi, cyd- addoliad, cyfnodau myfyrio ac yn sail i weithredoedd beunyddiol yr ysgol.
- Mae'r testunau/ themau yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn trywyddau ymholi drwy yamteb i gwestiynau mawr yn ymwneud ag Addysg Grefyddol.
- Drwy ddefnydd o arteffactau, ymweliadau addysgol, cydweithio ysgol i ysgol, straeon Beiblaidd a chydweithio agos gyda'r Esgobaeth, ca'r disgyblion brofiadau creadigol sydd yn eu hannog i holi, ymchwilio ac ystyried y cwestiynau mawr.
- O ganlyniad, ceir ymatebion hyderus ac aeddfed gan y disgyblion sydd yn datblygu parodrwydd i fynegi barn am gredoau, dysgeidiaethau ac arferion gan ddangos parch.
- Mae'r sygol wedi cyflwyno llyfrynau porffor i'r disgyblion gwblhau eu gwaith Addysg Grefyddol. Ynddynt ceir stôr o dystiolaeth trawsgwricwlaidd safonol sydd yn adlewyrchu'r pedwar diben a'r 6 maes dysgu a phrofiad.

**<u>O graffu ar lyfrau gwelir bod:</u>**

- Mewn llawer o lyfrau mae safonau cyrhaeddiad dysgwyr yn unol â phynciau craidd ac mae nifer sylweddol yn ennill graddau uwch.
- Mewn llawer o lyfrau mae'r cyrhaeddiad yn uchel a gwneir cynnydd buan o ran datblygu dealltwriaeth o Gristnogaeth ac ystod eang o gredoau crefyddol.
- Yn llawer o'r llyfrau gwelir fod y dysgwyr yn cael eu hysbrydoli gan y pwnc ac maent yn dysgu'n eithriadol o dda. Maent yn datblygu ac yn gwneud defnydd da iawn o ystod eang o sgiliau lefel uwch i ymholi, dadansoddi, dehongli, gwerthuso a myfyrio ar eu dealltwriaeth o effaith crefydd ar gredinwyr.
- Mewn llawer o lyfrau mae dysgwyr yn creu argraff yn y ffordd y maent yn defnyddio eu creadigrwydd a'u gwreiddioldeb i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau AG ar gyfer eu myfyrdodau personol eu hunain ynglŷn â chwestiynau ar ystyr a diben.
- Mewn llawer o lyfrau mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd yn rhagorol ac yn gyson dda bob amser.
- Mewn llawer o'r llyfrau gwneir defnydd effeithiol o asesu i lywio'r addysgu a'r dysgu mewn AG.
- Yn y rhan fwyaf o'r llyfrau mae AG yn cael proffil uchel yng nghwricwlwm yr ysgol ac mae gweithgareddau dysgu'n darparu'n llawn ar gyfer anghenion yr holl ddysgwyr.
- Mewn llawer o'r llyfrau mae cwricwlwm AG yn gyfoethog ac amrywiol ac yn galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth drylwyr a dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol trwy ystod eang o gyfleoedd dysgu.
- Mewn llawer o'r llyfrau mae cwricwlwm AG yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddeall a gwneud cysylltiadau rhwng credoau, arferion a systemau gwerthfawrogi'r ystod o gredoau a astudir.
- Yn y rhan fwyaf o'r llyfrau ceir cysylltiadau â gwerthoedd Cristnogol yr ysgol a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol wrth wraidd y cwricwlwm AG a chânt effaith sylweddol ar ddysgwyr.

DRAFT

**Cyd-addoli:**

- Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn gweithredu i sicrhau bod yr anghenion statudol ar gyfer addoli ar y cyd yn cael eu dilyn. Mae'r addoli ar y cyd yn eitem reolaidd ar y cynllun gwella ysgol.
- Mae camau wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fod ansawdd yr addoli sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion o safon dda iawn.
- Mae trefn gadarn cyd-addoli yr ysgol wedi sicrhau bod cyswllt agos iawn gyda'r Eglwys wedi ei feithrin sydd yn adlewyrchu ein cymeriad Cristnogol.
- Defnyddir arteffactau, themâu, cerddoriaeth, amser tawel wrth gyd-addoli.
- Rydym wedi cymryd camau i ddatblygu ymateb y dysgwyr i addoli ar y cyd, e.e. ydyn nhw'n gwrando, yn ymateb yn rhwydd, yn ymuno yn y canu, y gweddïo a'r myfyrdod, yn dangos parch a mwynhad drwy arsylwi sesiynau myfyrio ac addoli ar y cyd.
- Mae ymatebion ac ymddygiad bron pob un o'r dysgwyr i'w canmol yn ystod y cyfarfodydd ac mae'n fodd o feithrin ymdeimlad o berthyn.
- Mae nodweddion canolog cyd-addoli yn cael eu cynnwys ymhob addoliad ac wedi cael effaith gadarnhaol ar draws y ddau gyfnod allweddol.
- Rydym wedi integreiddio cyfleoedd i ddysgwyr gyfrannu at yr addoliad (e.e. darlleniadau, drama, gweddïau, cerddoriaeth), sydd yn ei dro wedi meithrin perchnogaeth dros y cyfnodau gan y disgyblion.
- Rydym wedi sicrhau ei bod hi'n amlwg i ymwelwyr bod yr ysgol yn ysgol eglwys drwy ddatblygu perllan yr ysgol i fod yn fangre ysbrydol / gweddïau ac arteffactau crefyddol yn amlwg yno.
- Mae mannau priodol i annog myfyrdod a gweddi yn amlwg o amgylch yr ysgol sydd yn estyn cyfleoedd i ddisgyblion a rhanddeiliad yr ysgol i wneud defnydd ohonynt i fyfyrio/ gweddio.
- Mae'r ysgol yn gweithredu mewn awyrgylch creadigol sydd wedi ei sylfaenu ar werthoedd Cristnogol craidd. Ceir naws ysbrydol arbennig o fewn y cyfnodau addoli.
- Gwerthfawrogir cyfraniad gwerthfawr y ficer lleol ar gyfer hyrwyddo'r gwerthoedd yn ei wasanaethau wythnosol yr Adran Iau yn ogystal â'r meysydd eraill ym mywyd a chymuned yr ysgol.
- Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.
- Mae cynllun cyd-addoli wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau yn ein gwasanaethau.
- Drwy ein gwasanaethau, ein cynllun gwaith Addysg Grefyddol ein cynlluniau PIVOTAL ac ABaCh mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrio ar yr hyn a drafodwyd. Cant gyfle hefyd i fyfyrio ar fywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain.
- Cynhelir gwasanaeth ysgol gyfan, Adran Iau, a'r cyfnod Sylfaen yn wythnosol yn yr Ysgol. Ceir cyfle yn y gwasanaethau hyn i fyfyrio, holi a thrafod materion sy'n codi yn yr ysgol neu y tu allan. Mae'r cyfnodau yma yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, gwrando ar eraill ac i barchu amrywiaeth barn.
- Mae'r disgyblion yn cyd-adrodd gweddi foreuol, gweddi cyn cinio a gweddi ar ddiwedd y dydd.
- Cynhelir gwasanaeth Cyfnod Allweddol Dau ar fore Mawrth, Cyfnod Sylfaen ar brynhawn Mawrth a chynhelir gwasanaeth Ysgol Gyfan ar fore Gwener.
- Cynhelir cyfnoadau myfyrio cyn cinio ar ddydd Mercher yn y dosbarthiadau.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: RHAGOROL**

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|

- Mae Ysgol Llandygai yn gymuned ddiogel sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad o'r safon uchaf i'w holl ddisgyblion.
- Mae'r disgyblion yn cael cyfle i gyfrannu al eu lles eu hunain ac eraill.
- Maent yn ddealusol iawn ac yn cymryd i ystyriaeth teimladau, emosiynau a safbwyntiau eraill.
- Mae'r disgyblion â sgiliau cymdeithasol arbennig sydd yn meithrin dealltwriaeth o deimladau, credoau a gwerthoedd eraill.
- Mae'r ysgol wedi creu grwpiau effeithiol o ddisgyblion sydd yn canolbwyntio ar elfennau i'w datblygu yn yr ysgol. Mae Llais y Plentyn yn elfen gref o fewn yr ysgol. Ceir grwpiau 'Y Criw Ysbrydol' sydd yn canolbwyntio ar ethos grefyddol yr ysgol, 'Y Dreigiau Doeth' sydd yn gyfrifol am ddatblygiadau'r Gymraeg, 'Y Gofalwyr Gwyrdd' sydd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau Eco, 'Derwyddon y Cyfrifiaduron' sydd yn sicrhau diogelwch eu cyd-ddisgyblio ar-lein ac yna'r 'Ieuanc Iach' sydd yn gyfrifol am Iechyd a Lles ein disgyblion.
- Mae'r Criw Ysbrydol wedi bod yn cydweithio i gynllunio a chreu gardd fyfyriol i'r ysgol fel man all rhanddeiliad yr ysgol fynd iddi i fyfyrio.
- Mae'r ysgol wedi ennill gwobr efydd Sustrans am eu hymdrechion i gyrraedd yr ysgol mewn modd gwyrdd.
- Mae'r Gofalwyr Gwyrdd wedi bod wrthi'n brysur yn meddwl am ffyrdd i ofalu am ein hamgyclhedd.
- Ceir cyfle i ddisgyblion rannu eu pryderon yn anhysbys, o fewn y blwch 'Blwch Bwrw Bol'. Ceir posteri gweledol o amgylch yr ysgol gan Asiantaethau elusennol megis, NSPCC, Barnados, sy'n hyrwyddo rhannu pryderon. Mae Addysg Bywyd a Pherthnasedd wedi'i strwythuro'n dda a rhydd gyfle i'r dysgwyr drafod agweddau sy'n ymwneud â pharchu'r corff a dangos parch at eraill, yn gorfforol a geiriol.
- Hyrwyddir Llais y Plentyn yn effeithiol yn yr ysgol, ac mae disgyblion CA2 yn cael eu cynrychioli'n dda gan y Cyngor Ysgol.
- Mae'r drefn o ddelio a monitro achosion o bryder yn effeithiol. Mae pob un aelod o staff yr ysgol yn ymwybodol o'r drefn o ddelio ag aflonyddwch neu fwlio.
- Mae rhaglen astudio ABaCh yr ysgol yn rhoi pwyslais arbennig ar sgiliau bywyd, ac yn tynnu sylw at gadw meddwl a chorff iach. Ceir ymweliadau cynhaliol ar gyfer atgyfnerthu eu gwybodaeth a dealltwriaeth.
- Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol er mwyn ymdrin ag agweddau sy'n ymwneud â gofal a lles disgyblion , yn yr ysgol a'r cartref.
- Mae gan bron pob un o ddisgyblion y CS a  CA2 wybodaeth dda am fwyta'n iach, ffitrwydd a diogelwch. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn ymwybodol o weithdrefnau Cynllun Ysgol Iach ac wedi dilyn rhaglenni amrywiol.
- Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol wybodaeth dda o reolau er mwyn lles a diogelwch a'r dylanwadau sy'n gallu effeithio ar fywyd iach – e.e. ysmygu, yfed, cyffuriau. Dengys holiaduron y rhieni bod bron pob un yn credu bod darpariaeth yr ysgol yn dda iawn.
- Mae cynllun manwl o weithgareddau Addysg Bywyd a Pherthnasedd wedi'i roi ar waith yn yr ysgol gan roi sylw i'r disgyblion ddatblygu hunanymwybyddiaeth, hunan-barch, datblygiad corfforol a'r mathau o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol mewn cymdeithas. Rhoddwyd gyfle i'r Cyngor Ysgol drafod cynnwys y Polisi Addysg Bywyd a Pherthnasedd a chyfrannu at ei gynnwys. Mae defnydd yr ysgol o  Raglen *SENSE* yn ogystal ag adnodd newydd '*Tyfu Fyny*', wedi gwreiddio'n gadarn ac effeithiol iawn  yng nghwricwlwm yr ysgol fel modd o  gyflwyno rhaglen gynhwysfawr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i ddisgyblion hynaf yr ysgol  flynyddol. O ganlyniad  mae gan y dysgwyr ddealltwriaeth dda o'r agwedd ac yn gallu trafod materion yn agored gydag aeddfedrwydd.
- Mae'r ysgol hefyd wedi gwreiddio cynllun Gwerthoedd Teulu sydd yn plethu gyda gwerthoedd Cristnogol yr Eglwys. Mae gwaith ar y gwerthoedd hyn yn cael ei gynllunio'n fisol o fewn y dosbarthiadau.
- Mae'r gwerthoedd newydd penodol sydd yn plethu â pholisi disgyblaeth newydd yr ysgol mewn bodolaeth

sef: Parchu pawb a phopeth, anelu tua'r sêr a bod yn ddiogel. Hyn yn deillio o hyfforddiant Pivotal ar ddisgyblaeth effeithiol. O ganlyniad, mae ymddygiad yr ysgol wedi gwella ond mae lle i wella eto yn y maes hwn. **Mae'r rhaglen yn gweithio ar 5 pilar sydd yn plethu â chynllun Gwerthoedd Teulu a'r Cynllun Gwerthoedd Cristnogol sydd yn canolbwyntio ar 12 o werthoedd.**

- Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn gyfeillgar tuag at ei gilydd, yn gwrtais â staff yr ysgol ac oedolion sydd yn ymweld. Maent yn gefnogol iawn i'w gilydd a cheir ymdeimlad o deulu cyfeillgar o fewn yr ysgol. Ceir ymdeimlad hapus a bugeiliol ynddi. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, gydag agweddau positif ynglŷn â'r dysgu. Mae eu gallu i gynnal y canolbwyntio ac i ymgymryd â thasgau yn dda.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, gydag agweddau positif ynglŷn â'r dysgu. Gwrandewir ar lais y plentyn er mwyn gwella agweddau addysgol ac allgyrsiol yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfle rhagorol i ddisgyblion leisio eu barn ynghylch yr addysg a ddarperir yn yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn gwneud penderfyniadau gwerthfawr er mwyn datblygu agweddau o'r ysgol ac maent yn edrych ar feysydd yn y CGY , megis yr Iaith Gymraeg, Siarter Iaith yn ogystal â mentergarwch. Rhoddir cyfle i'r aelodau'r Cyngor Ysgol i ddatblygu sgiliau bywyd ac mae'r Pwyllgor yn ffynhonnell codi arian at ddibenion penodol o fewn yr ysgol.
- Mae llawer o'r plant yn gyfeillgar tuag at ei gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r plant yn gefnogol iawn i'w gilydd a cheir ymdeimlad o deulu cyfeillgar o fewn yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn ymdrechu'n galed i godi arian i gefnogi elusennau amrywiol megis Plant Mewn Angen, Diabetes, Tenovus.
- Hyrwyddir ethos croesawgar, drws agored yn yr ysgol, a rhoddir pwyslais ar feithrin y gwerthoedd Cristnogol.
- Mae'r Ysgol wedi integreiddio fframwaith 'Family Values Scheme' sydd yn plethu ac egwyddorion Crefyddol yr ysgol.
- Mae'r rhaglen PIVOTAL wedi gwreiddio yn drwyadl yn yr ysgol ac mae pob disgybl yn llawn ymwybodol o'r dair rheol sef 'Anelu at y sêr, bod yn ddiogel a Pharchu pawb a phopeth.'
- Mae pob gwers yn amlygu rheolaeth dda a pherthynas dda a'r plant.
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn yr eglwys lleol, megis gwsanaeth y Pasg, Diolhcgarwch a'r Nadolig.
- Mae'r ysgol yn cynllunio themau i ddilyn trywyddau ymholiad megis Botswanna, Pa mor bwysig yw dwr mewn crefydd, Bywyd ar ôl marwolaeth?

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: RHAGOROL**

DRAFT

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Mae'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.
- Ceir enghreifftiau pwerus o waith megis Hapusrwydd yw, Adnabod cwestiynau syflfaenol bywyd, beth mae'r Beibl yn ei ddweud am gariad, Credoau Sikh am y creead, Crefydd yn erbyn gwyddoniaeth, Hanes Creu yr Hindwaid, Dewi Sant, Y Grawys, Sut mae pobl yn dtahlu'r Pasg, Yr Wythnos Sanctaidd, Neges Heddwch ac Ewyllys Da, defnyddio ein llais fel arf, Hawliau plant a chyfrifoldeb.

- Cyfoethogir eu profiadau yn effeithiol drwy'r defnydd rheolaidd a wneir o ymwelwyr ac ymweliadau, megis â'r eglwys leol, y Gadeirlan, cydweithiol gydag Ysgolion Eglwys lleol.
- Mae cynlluniau'r cwricwlwm yn seiliedig ar themâu diddorol ac mae'r disgyblion yn cyfrannu syniadau am gynnwys y rhaglenni dysgu yn briodol.
- Gwneir defnydd priodol o'r ardaloedd awyr agored i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn bwrpasol gan gynnwyd yr ardd fyfyriol.
- Mae egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru ar waith yng nghyfnod allweddol 2, gyda phwyslais da ar yr angen i adeiladu ar fedrau, profiadau a gwybodaeth y disgyblion ar eu taith drwy'r ysgol.
- Mae cynlluniau'r athrawon ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion yn fanwl a phwrpasol o fewn ddysg grefyddol.
- Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn eu hannog i wneud eu gorau o fewn awyrgylch gynhaliol a chefnogol.
- Mae rhan fwyaf yr athrawon yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion yn dda trwy gynnig amrywiaeth diddorol o weithgareddau.
- Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant y gweithgareddau yn effeithiol gyda'r disgyblion.
- Mae'r cymorthyddion yn gaffaeliad i'r ysgol ac yn cefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol o fewn y dosbarthiadau. Mae nodweddion gorau'r addysgu, sy'n amlwg mewn dros hanner y dosbarthiadau, yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel yr athrawon.
- Yn y dosbarthiadau hyn, maent yn holi'n fedrus er mwyn datblygu ymhellach ymatebion a dealltwriaeth y disgyblion ac mae cyflymder da i'r gwersi.
- Maent yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain, sydd yn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i wneud gwelliannau. Mae adborth yr athrawon yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion ac yn dangos iddynt sut i wella'u gwaith yn adeiladol.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: RHAGOROL**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Mae'r cyfnodau myfyrio sydd ar waith yn sicrhau fod disgyblion yr ysgol yn cael cyfleoedd addas i fyfyrio ar eu bywydau a/ neu ddigwyddiadau arbennig.
- Mae'r cyfnodau myfyrio yn arwain at drafodaethau aeddfed ymysg y disgyblion- gellir arwain a chefnogi digybl ymhellach yn dilyn cyfnod o drafodaeth.
- Mae'r ardaloedd gweddio / myfyrio amrywiol sydd o fewn yr ysgol yn rhoi cyfle arbennig i ddisgyblion fynd ati'n anibynnol i fyfrio/ gweddi sydd yn elfedn o ragoriaeth yn Llandygai.
- Mae trefniadau'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol iawn.
- Mae grwpiau llais y plentyn amrywiol sydd ar waith yn canolbwyntio ar hawliau disgyblion ond yn ogystal y cyfrifoldebau sydd yn dod gyda'r hawliau sydd yn arwain at greu cymuned ofalgar o fewn yr ysgol. Mae gan bawb rhan i'w chwarae i greu cymuned hapus.
- Mae'r blwch bwrw bol yn adnodd arbennig yn yr ysgol sydd yn cael ei ddefnyddio gan ddisgyblion i ddwyn sylw'r athrawon at bryder.

- Mae darpariaeth yr ysgol i gefnogi disgyblion yn effeithiol tu hwnt yn enwedig drwy rôl yr Uwch gymhorthydd ELSA.
- Mae rhaglen y Llofnod Dysgu Teulu yn arf effeithiol i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd.
- Cydweithir yn effeithiol gydag asiantaethau allanol amyrwiol.
- Mae polisiau ar waith gyda gogwydd crefyddol iddynt ar waith yn yr ysgol megis y polisi disgyblu, addysg bywyd a pherthnasedd, cyd-addoli.

| Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd? | Ydy | ✓ | Nac ydy | |
|---|---|---|---|---|

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: RHAGOROL**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu yn effeithiol iawn gyda holl staff yr ysgol. Gwelir y weledigaeth hon ar furluniau yn nerbynfa'r ysgol. Mae'r gwerthoedd Cristnogol yn wraidd i'r holl a wnawn yn Llandygai.
- Mae gan yr ysgol gyfeiriad strategol cryf gyda'r Gwerthoedd Cristnogol, lles a deallusrwydd emosiynol disgyblion ynghyd â datblygiad dysgu ac addysgu blaengar yn ganolbwynt i'w gweithrediadau.
- Mae'r arweinyddiaeth yn seiliedig ar bennu cyfeiriad strategol eglur sy'n sail i holl weithgareddau'r ysgol.
- Mae'r weledigaeth yn glir, sef, *'Anelu at Ragoriaeth'* sydd yn gosod safonau uchel ar gyfer pob rhanddeilydd o fewn yr ysgol. Credwn mai dyna sydd wrth wraidd safonau, ethos a chyflawniad priodol. Scirhewn fod safon gwaith o fewn Addysg Grefyddol o ganlyniad yn rhagorol ac yn cyd berfformio â llythrennedd, rhifedd a TGCh.
- Mae'r cyfeiriad strategol yn cael ei weithredu trwy bum blaenoriaeth yn y CGY. Wrth weithio tuag at y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau cytunedig â'r Pennaeth yn ddi-ildio wrth gyfleu disgwyliadau uchel iawn ar y rhai mae'n eu rheoli. Mae is-flaenoriaeth yn y Cynllun Gwella Ysgol eleni yn cyfeirio at elfennau Crefyddol sydd angen eu datblygu yn yr ysgol.
- Wrth hunan arfarnu cyfeiriad Cristnogol yr Ysgol ychwanegwyd blaenoriaeth i CDY sydd yn cynnwys cynllun penodol i HUNAN ARFARNU a ddatblygu cymeriad Cristnogol yr Ysgol. Y mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu pendant ac yn gosod amserlen bendant i'w ddilyn. Y mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cynnydd yn eu cyfarfodydd.
- Y mae staff yr Ysgol a'r llywodraethwyr yn ymateb yn llawn i anghenion addysgol pob plentyn gan gynnwys y rhai sydd ar gofrestr ADY. Drwy wneud hyn sicrhawn ein bod yn cydnabod cymeriad Cristnogol yr Ysgol drwy greu ethos sydd yn cefnogi dysgu effeithiol.
- Mae holl randdeiliaid yr ysgol , staff , disgyblion , rhieni a Llywodraethwyr yn llwyr ymwybodol o weledigaeth ac amcanion y pennaeth a'r ysgol.
- Mae holl flaenoriaethau'r CGY yn gyfuniad o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cynnwys cyllid i sicrhau hyfforddiant staff, ymweliadau gydag ysgolion neilltuol neu adnoddau ar gyfer gwelliant yn y ddarpariaeth. Dyma hanfodion 'Anelu at Ragoriaeth'.
- Er mwyn hyrwyddo'r gwaith tîm, mae'r Pennaeth wedi sefydlu systemau cyfathrebu effeithiol i sicrhau ymrwymiad i'r cyfeiriad strategol a'r drefn hunan-arfarnu.
- Mae gan yr ysgol stôr o bolisïau amrywiol a gaiff eu hadolygu gan y Corff Llywodraethol yn unol â system mapio effeithiol yr ysgol. Adlewyrcha'r polisiau y Gwerthoedd Cristnogol.
- Mae pob plentyn yn ymwybodol o amcanion cyffredinol yr ysgol i Barchu pawb a phopeth, Anelu at y Sêr a Bod yn ddiogel. Mae'n ran greiddiol o fywyd yr ysgol ac yn cael effaith ar safonau ynghyd a datblygu sgiliau cymdeithasol y disgyblion.

DRAFT

- Mae'r UDRh yn atgyfnerthu cyfeiriad strategol yr ysgol yn llwyddiannus iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae'r tîm arwain, yn atebol am arwain meysydd penodol o'r cynllun gwella ysgol. Maent yn cwrdd yn wythnosol o fewn eu hadrannau, ac o ganlyniad yn pennu ffordd glir ymlaen i'r ysgol. Mae'r tîm yn dadansoddi gwaith yr Ysgol yn arfarnol er mwyn datblygu'r weledigaeth strategol ymhellach. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r Ysgol yn ogystal â'r meysydd sydd angen gwella. Maent yn gweithredu ar y deilliannau hyn yn gyflym er mwyn mynd i'r afael ar unrhyw ddiffygion neu wendidau sy'n codi.
- Mae'r staff addysgu ac aelodau allweddol o'r staff atodol yn cwrdd yn wythnosol i drafod a derbyn hyfforddiant ar agweddau o Addysgu a Dysgu, hunanwerthuso ac i rannu arfer dda. Maent yn arwain agweddau fel craffu ar lyfrau disgyblion ac ar gynlluniau gwaith ei gilydd er mwyn sicrhau cysondeb mewn darpariaeth ar draws yr Ysgol yn ogystal â chywirdeb wrth asesu gwaith disgyblion. Mae'r arfer effeithiol hwn o ddatblygu medrau arweinyddol, hefyd yn cael dylanwad da ar yr addysgu drwy'r Ysgol.
- Mae gwirfoddolwyr o'r gymdeithas leol yn cyfrannu at waith cwricwlaidd i wella sgiliau darllen y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith cadarnhaol ar feithrin a chynnal diddordeb a mwynhad y disgyblion at ddarllen yn ogystal â chodi eu hyder yn eu gallu i drafod testun. Mae'r ysgol yn manteisio ar sgiliau pobl o fewn y gymuned er mwyn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr, ac ar yr un pryd, datblygu ethos cymunedol. Gwelir hyn drwy wahodd aelodau o'r gymuned yn siaradwyr gwadd ac estyn gwahoddiad i bensiynwyr y pentref ddathlu Dydd Gŵyl Dewi mewn gwledd o ganu.
- Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda efo'r rhieni a'r gymuned ehangach mewn ystod eang o gyfryngau e.e. newyddlen, gwefan ysgol, Papur Bro, negeseuon destun, llythyrau wythnosol y CS, llyfryn themâu tymhorol yr Adran Iau, Trydar, ClassDojo, adroddiadau blynyddol, nosweithiau rhieni, Llawlyfr yr ysgol a gohebiaeth am weithgareddau'r tymor.
- Ceir perthynas dda ac adeiladol gyda sefydliadau eraill gan gynnwys ysgolion eraill o fewn y Dalgylch e.e. CDB ar gyfer datblygu egwyddorion AaGD er mwyn gwella cyflawniadau'r dysgwyr, yn ogystal â chynnig lleoliadau myfyrwyr o'r colegau lleol ac ysgolion Uwchradd.
- Mae'r trefniadau pontio a gytunir gan yr ysgolion clwstwr a'r ysgolion uwchradd lleol yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r strwythur drosglwyddo disgyblion parthed y bartneriaeth Gynradd /Uwchradd yn effeithiol er lles y disgyblion. Cynhelir cyfarfodydd â rhieni disgyblion ag ADY gyda'r Cyd-gysylltydd Uwchradd a'r ysgol yn ystod tymor yr haf . Mae'r drefn flynyddol hon yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau cyn i'r disgybl drosglwyddo i'r Sector Uwchradd.
- Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig yn dymhorol ar y blaenoriaethau yn y CGY ac felly yn ymateb i'r hyn sydd wedi ei gynllunio ar gyfer pob pwynt asesu.
- Mae'r aelodau penodol o'r Corff Llywodraethol yn ymweld ag arweinwyr y blaenoriaethau er mwyn trafod datblygiadau mewn cyswllt a'r blaenoriaethau er mwyn adrodd arnynt. Mae hyn yn broses o herio a chefnogi'r arweinwyr pwnc gan feithrin perthynas beirniadol broffesiynol gan gytuno ar dargedau fel rhan o linell atebolrwydd cadarn.
- Mae'r Pennaeth wedi cyflwyno timau o ddisgyblion i feithrin Llais y Plentyn yn yr ysgol. Cafodd y 'Criw Ysbrydol' eu cyflwyno yn yr ysgol y llynedd a fyth ers hynny maent wedi bod yn gweithio'n galed ar syniadau cyffrous a diddorol i ddatblygu ethos grefyddol yr ysgol. Mae hon, yn ddiamau, yn elfen rhagorol i waith yr ysgol.
- Mae'r Pennaeth wedi gweithio'n ddiwyd i gryfhau'r bartneriaeth rhwng ysgolion eglwysig eraill. Cynlluniwyd taith Addysgol eglwysig yn ddiweddar ble cafodd disgyblion Ysgol Llandygai, Ysgol y Faenol ac Ysgol Cybi gyfle i arsylwi a chraffu ar arferion da i'w mabwysiadu o fewn eu hysgolion. Roedd effaith y cyfle yn rhgaorol wrth i nifer o'r disgyblion adrodd am eu boddhad o feithrin cyfeillgarwch newydd. Maent yn dymuno parhau gyda'r cydweithio i greu Cryno Ddisg o gerddoriaeth.Mae'r ysgol wedi cydwiethio ag Ysgol Penboyr yn yr un modd i rannu arferion da.
- Ceir ymweliadau gan ysgolion eglwyisg eraill i graffu ac arsylwi ar arferion effeithiol sydd ar waith yn Llandygai.
- Mae'r Pennaeth wedi cyflwyno llyfrau porffor arbennig i'r disgyblion gwblhau eu gwaith Addysg Grefyddol/ Cyfnodau myfyrio ynddyn nhw. O ganlyniad, mae statws i'r gwaith ac mae'r disgyblion yn falch iawn o'r hyn

maent wedi eu cyflawni ynddynt.

- Ceir ymweliadau amrywiol gan aelodau o'r Esgobaeth sydd yn ffordd o ddatblygu ymhellach at bartnariaethau strategol yr ysgol sy'n sicrhau bod statws eglwysig yr ysgol ynghyd â'r Gwerthoedd Cristnogol yn flaenoriaeth gennym.

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: RHAGOROL**

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **Ystryied defnydd o'r Maes Llafur Addysg Grefyddol Eglwysig o fewn yr ysgol.** | **Cynnal trafodaeth yn y Cyfarfod Corff Llywodraethol nesaf.** | | |
| **Datblygu rôl rhanddeiliaid yr ysgol wrth gynllunio cyfnodau o gyd-addoli yn yr ysgol.** | Defnyddio templed cynllunio yn fwy cyson yn yr ysgol wrth fynd ati i gynllunio cyfnodau o gyd-addoli/ myfyrio. | | |
| **Parhau i ddatblygu'r Gymuned Ddysgu Broffesiynol gydag Ysgolion Eglwys Cyfagos.** | Meithrin y cysylltiadau parod sydd ar waith yn dilyn taith ddysgu diweddar. | | |

DRAFT

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

- Y mae Ysgol Llandygai yn ysgol a naws arbennig iawn iddi. Mae'r Gwerthoedd Cristnogol yn Sylfaen i bopeth a wnawn gan ddatblygu a chefnogi disgyblion i fod yn ddinasyddion gwybodus a deallusol ar gyfer y byd mawr.
- Mae'r cyfleoedd yr ydym yn eu cynnig yn yr ysgol o fewn y gwersi Addysg Grefyddol, y cyfnodau myfyrio a'r cyfnodau o gyd addoli yn rhoi cyfle i'r disgyblion fyfyrio, ystyried a chynnig atebion i'r Cwestiynau Mawr. Mae cynllunio trwyadl yr ysgol yn sicrhau fod Cwestiwn Mawr wrth wraidd i bob gwers.
- Mae hon yn ysgol sydd yn cynnig gofal a chefnogaeth o'r radd flaenaf i holl randdeiliad yr ysgol. Un teulu hapus ydym ni yn Llandygai.
- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a cymdeithasol yn arbennig.
- Mae'r Gwerthoedd Cristnogol yn sylfaen gadarn i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gadw'n iach a diogel a hynny drwy ras Duw.
- Mae'r disgyblion yn meddu ar lyfrau porffor Addysg Grefyddol sydd yn cynnwys tasgau yn ymwneud â myfyrio ac hunan ofal.
- Mae darpariaeth effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.
- Mae gwerthoedd Pivotal sydd ar waith yn yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn meddu ar y sgiliau cymdeithasol angenrheidiol ar gyfer y byd real. Mae'r egwyddorion sef 'Parchu Pawb a Phopeth, Anelu at y Ser a Bod yn Ddiogel' yn hysbys i bob rhanddeilydd o'r ysgol ac yn sylfaen gadarn i ymddygiad rhagorol.
- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau ac o ran gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud dewisiadau o ran ffordd iach o fyw yn dda.
- Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan lawn yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.
- Ar ddechrau bob themâu caiff bob plentyn gyfle i gynnig syniadau parthed yr hyn maent eisiau ei ddysgu, mae'r staff yn cynnwys y syniadau yma yn eu cynlluniau gwaith.
- Caiff creadigrwydd ei ddatblygu trwy lythrennedd, darlunio, cerddoriaeth, addysg grefyddol a thechnoleg.
- Mae trefniadau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gan gynnwys troli ffrwythau'r ysgol.
- Fe anogir rhieni i ddarparu pecynnau bwyd iachus.
- Mae'r ysgol yn ran o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac wedi llwyddo i ennill gwobr Cam 3; llwyddwyd i ennill y wobr efydd cynllun Sustrans Teithiau Egniol yn 2017.
- Mae gan yr ysgol bartenriaeth llwyddiannus gyda'r heddlu a'r gwasanaeth tân er mwyn cyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion am sut i ofalu amdanynt eu hunain, e.e cyffuriau, sylweddau, trais, bwlio.
- Mae'r ysgol wedi cynllunio yn drylwyr ar gyfer amseroedd cinio ac egwyl er mwyn hyrwyddo gweithgarwch corfforol.
- Mae'r disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda iawn am gadw'n iach a diogel mewn gwersi Gwyddoniaeth, Addysg Bywyd a Pherthnasau a gwersi ABaCh ac Amser Cylch.
- Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol i feithrin medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud dewisiadau i gadw'n iach a diogel o rhag camddefnyddio sylweddau, bod yn ymwybodol o rhyw a pherthnasau iach a chadw'n ddiogel arlein.
- Mae'r trawsdoriad o themau a gyflwynir yn yr sygol yn rhoi cyfle i didsgyblion yr ysgol ddod i ddysgu am wledydd amrywiol gan gynwwys Botswana, Patagonia, Tseina. Mae cysylltiad agos rhwng y Brifysgol â'r ysgol a daw myfyrwyr o Tseina i'm gweld yn flynyddol er mwyn cynnal gweithdai am ddiwylliant eu gwlad.
- Mae'r themau yn ogystal yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu am grefyddau amrywiol a'r pwysigrwydd i barchu pawb a phopeth.
- Cynhaliodd yr ysgol wythnos masnach deg llwyddianus llynedd a oedd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bob dosbarth ddysgu am masnach deg mewn gwledydd amrywiol ar draws y byd e.e. siwgr, siocled, cotwm a the.
- Mae gan yr ysgol Bolisi Cydraddoldeb Hiliol polisïau Dimensiwn Rhyngwladol, Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Aml Ddiwylliannol.
- Mae gwersi Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth yn benodol yn rhoi cyfle da i'r plant ddysgu sut mae eu penderfyniadau yn effeithio eraill a'r amgylchfyd, ac rydym yn cynnig mwy o gyfleoedd i astudio enghreifftiau



DRAFT

penodol ble mae hyn yn digwydd erbyn hyn.
- Mae gweithgareddau mentergarech blynyddol yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol o gynllunio, elw a cholled ac yn meithrin cyfrifoldebau bywyd ymysg y disgyblion.
- Mae diwylliant gwrth-fwlio gref ar waith yn yr ysgol ac mae'r Cyngor Ysgol wedi rhoi cyflwyniad i weddill y disgyblion am y pwysigrwydd o ddwedu wrth oedolyn os yn pryderu. Maent wedi cynllunio posteri i annog disgyblion i ddweud ac maent yn weledol o amgylch yr ysgol.
- Mae polisi e-ddiogelwch cynhwysfawr ar waith yn yr ysgol a chaiff disgyblion wersi am ddiogelwch arlein.
- Mae'r disgyblion yn deall y camau gweithredu priodol i'w cymryd os ydynt yn profi achos o seibr fwlio ac i beidio a rhannu unrhyw wybodaeth personol.
- Mae 'Derwyddon y Cyfrifiaduron' yn grwp o ddisgyblion sydd yn hyrwyddo defnydd synhwyrol o'r we.
- Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o broiect ymchwil i 'Hyder Merched' mewn cydweithrediad â Theatr Pontio a'r Brifysgol ym Mangor. Cafodd y disgyblion gyfle i gydweithio gydag artistiaid, cerddorion, dawnswyr ac actorion i feithrin hunan hyder drwy ymeud â gweithgareddau celfyddydol amrywiol. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion, eu sgiliau llafar ynghyd â'u creadigrwydd a hynny gan feithrin hunan hyder. Crewyd rhaglen ddogfen ar y gwaith a chafwyd premiere ohoni yn Theatr Pontio, Bangor mewn prynhawn Carped Coch i'r disgyblion, y rhieni a'r gymuned.
- Mae'r amrywiol gynghorau llais y plentyn yn atgyfnerthu'r dysgu- Y Criw Ysbrydol, Derwyddon y Cyfrifiaduron, Yr Ieuanc Iach, Y Dreigiau Doeth, Y Gofalwyr Gwyrdd a'r Cyngor Ysgol. Mae'r cynghorau hyn yn gweithio'n ddi-baid i hyrwyddo negeseuon pwysig am eu cyfrifoldebau.
- Mae'r ysgol yn rhoi cyfrifoldebau i'r disgyblion sydd ar y Cynghorau llais y plentyn i feddwl am ffyrdd deinameg i ddatblygu'r ysgol a symud yr ysgol yn ei blaen mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol.
- Mae'r cynghorau yn gosod esiampl rhagorol i weddill o ddisgyblion yr ysgol drwy drafod a meddwl am syniadau arbnnig i ddatblygu'r ysgol megis diwrnod plant mewn angen, cynllunio bocs blodau ar ffurf croes i'w rhoi yn yr ardal fyfyrio, penderfynu cynnal troli ffrwythau i'w gwerthu ymysg y disgyblion, cynllunio cymeriad Digidol i hyrwyddo defnydd diogel o'r we a chyflwyno siacedi i Gymro neu Gymraeg yr wythnos i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Mae'r ysgol wedi ei chanmol am ei hymdrechion i addysgu'r disgyblion a rhoi profiadau gwerthfawr iddynt am ddiwylliant  Cymru fel rhan o waith y Siarter Iaith Gymraeg. Mae annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wedi bod yn her i'r ysgol o ystyried natur ieithyddol yr aelwyd ond, drwy ddyfalbarhau a thrwy gyflwyno gweithgareddau sydd yn sbarduno'n disgyblion mae swn y Gymraeg i'w chlywed yn amlach o amgylch yr ysgol.
- Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Aur Y Siarter Iaith am ddwy flynedd yn olynnol. Bu disgyblion yr ysgol wrthi'n ddygn yn ffilmio darn ar gyfer Llywodraeth Cymru fel rhan o broses enwebu Mrs Gwenan Ellis Jones sef cydlynydd Siarter iaith Gwynedd ar gyfer y wobr 'Defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd sy'n ysbrydoli' ar gyfer Gwobrau Addysgu Cymru. Mae brwdfrydedd y disgyblion a hyder y disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn amlwg ac yn destun balchder.
- Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan weithredol yng ngwasanaethau'r ysgol drwy osod esiampl i weddill y disgyblion.
- Yn ogystal, maent wedi cymryd cyfrifoldeb dros addysgu'r disgyblion am hawliau plant ac fe newidant eu hysbyfwrdd yn wythnosol i arddangos hawl yr wythnos.
- Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb gymryd rhan yn y grwpiau.
- Mae cyfnod myfyrio yn rhan o amserlen yr wythnos a chaiff disgyblion cyfle i fyfyrio ar eu dysgu sydd yn ddatblygiad ysbrydol, moesol a chydmeithasol arbennig.
- Mae'r disgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac yn cefnogi elusenau megis Plant Mewn Angen, Apel Bocsys Esgidiau i Romania a Tenovus.
- Mae ardal grefyddol ym mhob dosbarth ac mae disgyblion yn defnyddio'r ardal i fyfyrio'n unigol gan ystyried y gwerthoedd Cristnogol.
- Mae ardal fyfyriol penodol i ddisgyblion yr ysgol fynd iddi ym merllan yr ysgol ble mae mainc eglwys a bocs blodau ar ffurf croes yno. Mae'n ardal hyfryd a thawel i gymryd amser i feddwl.

- Ceir ethos ysbrydol neilltuol i'n gwasanaethau ac mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw. Mae strwythur arbenni i'n gwasanaethu sydd yn rhoi cyfle i'r disgyblion fyfrio ac ymateb a chyfrannu i gwestiynau 'mawr'.
- Mae ymweliad wythnosol gan y Parchedig sydd yn cyflwyno gwasanaethau mewn ymateb i werth y mis yr ysgol. Mae llinnyn euraidd o ganlyniad rhwng y gwersi â'r gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Mr Elfed Morgan Morris** |
| **Llofnod y pennaeth** | *E.M.Morris* |
| **Dyddiad:** | 10.06.2019 |

DRAFFT